**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu’r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) (Diwygio) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu’r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**18 Mehefin 2025**

**PART 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Diogelu’r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio Rheoliadau Diogelu’r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2025. Bydd y Rheoliadau Diwygio’n rhoi pŵer newydd i ganiatáu i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol gadw cynhyrchion y maent wedi ymafael ynddynt er mwyn eu gwaredu fel gwastraff, fel y cyfarwyddir o dan Reoliad 12 o Reoliadau 2024.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau diwygio'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod.

2.2 O dan adran 140(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("EPA 1990"), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddilyn gofynion i hysbysu'r Rheoliadau diwygiedig. Dilynwyd y gofynion hyn ac maent wedi arwain at ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch gwaredu fêps yr ymafaelir ynddynt. Nid oedd unrhyw ddiwygiadau yn ofynnol i’r ddeddfwriaeth. Nodwn y gall Gweinidogion Cymru, o dan adran 140(7) o EPA 1990, ddewis peidio â dilyn y gofynion i hysbysu os oes risg uniongyrchol, os dilynir y gofynion hynny, yr achosir llygredd difrifol i'r amgylchedd.

2.3 Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried adran 140(7) ac wedi dod i'r casgliad na fyddai diffyg y pŵer newydd am y cyfnod byr pan fyddai’r gofynion i hysbysu'n cael eu gweithredu'n creu risg uniongyrchol o lygredd difrifol i'r amgylchedd. Yn niffyg pŵer i gadw cynhyrchion er mwyn eu gwaredu fel gwastraff yn unol â'r cyfarwyddyd, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol waredu'r cynhyrchion hyn mewn ffordd sy'n peri llygredd difrifol i'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod gan y rhai sy'n rheoleiddio'r gwaharddiad yr holl bwerau sydd eu hangen arnynt i fod yn gwbl effeithiol o'r dyddiad cynharaf posibl. Dyma pam roedd y Rheoliadau diwygiedig yn cadw'r gofynion i hysbysu, ond nad oeddent yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau diwygio drwy arfer y pwerau wedi'u rhoi iddynt gan ddefnyddio pwerau o dan adran 140(1)(c) a (d), a 3(c) o EPA 1990.

3.2 Mae Deddf EPA 1990 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wahardd defnyddio, cyflenwi a storio eitemau penodedig i'w hatal rhag achosi llygredd amgylcheddol a niwed i iechyd anifeiliaid. Mae hefyd yn caniatáu iddynt roi pwerau sy'n cyfateb i'r rhai o dan adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i bersonau awdurdodedig, gan gynnwys cadw dogfennau y maent wedi ymafael ynddynt.

3.3 Caiff y Rheoliadau diwygio eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Roedd Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024"), a wnaed ar 27 Tachwedd 2024 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn gwahardd cyflenwi fêps untro (rhai nicotin a rhai nad ydynt yn cynnwys nicotin), a daethant i rym ar 1 Mehefin 2025.

4.2 Mae Rheoliad 10 o Reoliadau 2024 yn cynnwys pwerau mynediad ac archwilio, gan gynnwys chwilio am fêps untro, a chydrannau fêps untro, ymafael ynddynt a'u cadw.

4.3 Mae rheoliad 12 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo swyddogion gorfodi awdurdodau lleol i waredu fel gwastraff fêps untro y maent wedi ymafael ynddynt a'u cadw.

4.4 Yn ystod y broses ddrafftio gymhleth ar draws y DU gyfan, hepgorwyd darpariaeth benodol o Reoliadau 2024. Byddai'r ddarpariaeth hon yn grymuso rheoleiddwyr i gadw fêps untro y maent wedi ymafael ynddynt, i gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan Reoliad 12. Mae hyn yn golygu, er y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo swyddogion gorfodi awdurdodau o dan Reoliad 12, nad oes gan swyddogion gorfodi awdurdodau lleol y gallu i gadw fêps untro y maent wedi ymafael ynddynt, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath. Mae'r rheoliadau diwygio hyn yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar swyddogion gorfodi awdurdodau lleol i'w galluogi i gydymffurfio'n llwyr â'r cyfarwyddyd, ac i sicrhau cysondeb â darpariaethau tebyg wedi'u cynnwys yn rheoliadau cyfatebol Lloegr a'r Alban.

## 5. Ymgynghori

5.1 Gan fod y cynigion y rhoddwyd grym iddynt yn Rheoliadau 2024 yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol , a bod darpariaethau'r Rheoliadau hynny yn destun craffu a chymeradwyaeth y Senedd, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar gyfer y Rheoliadau diwygiedig.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Gan fod Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gynnal ar gyfer Rheoliadau 2024, nid oes angen asesiad arall ar gyfer y Rheoliadau diwygiedig.